



Glandŵr Cymru  
Canal & River Trust

Cadw cysylltiad rhwng pobl, natur a hanes  
Keeping people, nature & history connected




Ariennir gan  
Lywodraeth Cymru  
Funded by  
Welsh Government

Partneriaeth Bioddwydoliaeth Cymru  
Wales Biodiversity Partnership

# Llwybr Camlas Maldwyn.

## Bywyd gwylt y dref!

**Ydych chi'n barod i fynd ar saffari bywyd gwylt yng nghanol tre'r Trallwng? Cewch gip ar rai o'n trigolion fel glas y dorlan, llygoden y d r neu'r penhwyad, un o'n pysgod mwya' ffrnig. Gallwch weld olion dyfrgwn hefyd...**



### Beth i'w wneud

Mae'r taflenni gweithgareddau hyn yn cyd-fynd â thait gerdded 1.2m (2km) ar Lwybr Camlas Maldwyn. Mae'n cynnwys deg arosfa, pob un â chod QR fel hyn:



Byddwch angen darlennydd QR am ddim i weld beth yw cynnwys pob cod. Chwiliwch am 'QR

reader' yn siop/marchnad App eich ffôn deallus, neu ewch i

[www.i-nigma.com](http://www.i-nigma.com)

Wrth bob arosfa, sganwch y cod QR, yna gwnewch y gweithgareddau. Cofiwch fynd â phensil gyda chi.

### Diogelwch dŵr

Gair i gall – cadwch draw o ymyl y gamlas

Am fwy o wybodaeth am ddiogelwch dŵr, ewch i:

[www.canalriverexplorers.org.uk](http://www.canalriverexplorers.org.uk)



## Gweithgaredd 1

# Bywyd gwylt y dref

**Mae'n saffari bywyd gwylt ar fin cychwyn. Ond cyn hynny, dyma ychydig o ffeithiau difyr am hanes y gamlas.**

### Cychod cyflym

Llwybr cludiant oedd y gamlas yn wreiddiol. Byddai cychod wedi'u tynnu gan geffylau yn mynd ar ei hyd, gan gario nwyddau yn union fel trenau a lorïau heddiw. Roedd teithwyr yn cael eu cludo ar gychoed cyflym iawn wedi'u tywys gan geffylau trotian. Roedd rhaid i bawb symud o'r neilltu'n sydyn iawn!



### Pontio

Byddwch yn pasio pedair pont, pob un â rhif ar ei hochr. Os bydd damwain, gallwch roi rhif y bont i'r gwasanaethau brys er mwyn iddyn nhw ddod o hyd i chi.



### Beth sy'n digwydd?

Beth allwch chi ei weld a'i glywed yma?

.....  
.....

## Gweithgaredd 2

# Marciau ar y mur

**Ewch at un o'r hen waliau sydd yma. Allwch chi weld marciau rhyfedd tebyg i smotiau paent, jelli llyffant neu uwd? Planhigion od o'r enw cennau ydyn nhw.**

Craffwch yn ofalus ar un o'r cennau. Ydy'r siapiau'n eich atgoffa chi o rywbeth?

.....


Teimlwch yr hen gerrig a'r cennau. Sut deimlad yw e?

.....

.....

### Gwnewch sŵn!

Mae'n siŵr bod ystumod yn cysgu gerllaw ar hyn o bryd. Allwch chi wneud sŵn tebyg i ystum yn chwyrnu-cysgu?



### Pa bont?

Cofiwch ysgrifennu rhif y bont wrth basio.





## Gweithgaredd 3

# Hwyllo a phlymio

**Dyma'r lle gorau ar y llwybr i weld hwyaid ac elyrch. Mae'r alarch yn aderyn gosgeiddig a hamddenol braf - ond mae'n gallu bod yn ymosodol iawn, ac yn hel adar eraill i fwrdd.**

### Beth sydd yma heddiw?

#### Elyrch

- Yn nofio'n urddasol
- Cywion elyrch – maen nhw'n gallu bod yr un faint ag elyrch, ond gyda phlu llwyd

#### Hwyaid

- Slotian – yn lloccio bwyd ar wyneb y dŵr
- Tîn dros ben – yn plymio o dan y dŵr gyda'u cynffonau yn yr awyr




### Wyddoch chi?

Mae elyrch benywaidd yn cario'r cywion bach ar eu cefnau weithiau – del ynte?

### Gwnewch sŵn!

Pwy sy'n gallu gwneud sŵn hwyaden?



### Pa bont?

Cofiwch ysgrifennu rhif y bont wrth basio.



## Gweithgaredd 4

# Ymosodwyr!

**Mae goresgynwyr yn peryglu ein bywyd gwyllt ni. Rhai o wledydd eraill, hynny yw, nid o ben draw'r gofod. Er enghraifft:**

- Minc Americanaidd sy'n bwyta llygod y dŵr
- Clymog Japan yn tagu ein planhigion
- Pobl yn rhyddhau anifeiliaid anwes fel therapinaid i'r gwyllt, sydd yna'n bwyta ein pysgod a griff broga i gyd.

### Allwch chi ddyfeisio rhyw greadur mileinig y gamlas?

Beth yw ei enw? .....

Beth mae'n ei fwyta? .....

Ble mae'n llechu? .....

Meddyliwch am ffyrdd eraill y gall creaduriaid y gamlas amddiffyn eu hunain rhag eich ymosodwr newydd?

.....  
.....





## Gweithgaredd 5

# Cymdogion swnllyd!

Ar un adeg, roedd y gamlas hon fel ffordd brysur yn mynd drwy'r dref. Roedd yn fwrllwm o gychod, ceffylau, gweithwyr a warysau. Heddiw, s n bywyd gwyllt sydd yma'n bennaf.

**Ust! Gwrandewch yn astud. Ticiwch os ydych chi'n clywed unrhyw un o'r synau hyn:**

**Cân neu gri aderyn**

Ydych chi'n gallu gweld o ble mae'r sŵn yn dod?

**Sŵn plop uchel**

Sŵn llygoden y dŵr yn plymio i'r gamlas, neu bysgodyn yn neidio?

**Sïo neu hymian**

Sŵn gwenynen, gwas y neidr neu bryfyn?

**Traffig**

Sŵn ceir a loŕiau ar y ffordd – neu awyrennau uwch eich pen?



## Gweithgaredd 6

# Dan y dŵr

Sefwch yn ddigon diogel o ymyl y dŵr, ac edrychwch i lawr. Allwch chi weld yr holl blanhigion? Mae'n debyg i goedwig law fach. Dyma'r olygfa sy'n wynebu'r hwyaden wrth sbecian dan y dŵr.

Pa liwiau ydych chi'n gallu eu gweld?

Oes unrhyw beth yn symud?



### Dim dŵr yn gollwng

Chwiliwch am focs du ar y llwybr. Mae'n gofalu nad oes dŵr yn gollwng o'r gamlas. Byddai'n beryglus i bobl a bywyd gwyllt pe tai hynny'n digwydd.

### Edrychwch ar yr holl creaduriaid sydd a y dudalen hon

- ✓ Ticiwch bob creadur sy'n gallu byw am amser maith allan o'r dŵr.
- ✗ Rhowch groes wrth bob creadur na fyddai'n gallu byw felly.



## Gweithgaredd 7

# Amffibiaid anhygoel

**Mae'r pwll yn lle da i fagu llyffantod, brogaod a madfallod dŵr (amffibiaid). Maen nhw'n dodwy wyau yma. Pan ddaw penbyliaid i'r golwg, maen nhw'n ddiogel rhag pysgod y gamlas a fyddai'n eu bwyta.**


Arhoswch yr ochr hon i'r ffens, ac edrychwch ar y pwll. Yr adeg gorau i weld llyffantod a brogaod yw yn gynnar yn y flwyddyn pan maen nhw'n silio neu'n dodwy wyau. Chwiliwch am rifft llyffantod sy'n debyg i jeli ar y d r, penbyliaid bach neu llyffantod a brogaod bychain yn sboncio o le i le.

### Gwnewch sŵn!

Pwy sy'n gallu dynwared sŵn broga yn crawcian?

### Cynlluniwch arwydd

Eisteddewch ar y fainc. Dychmygwch mai dyma'r adeg pan mae brogaod bach yn gadael y pwll. Cynlluniwch arwydd yng nghanol y triogl coch er mwyn rhybuddio pobl i beidio â sathru arnyn nhw.



## Gweithgaredd 8

# Pwy sy'n bwyta pwy?

**Mae'r fainc ar y chwith ar ffurf penhwyad, un o bysgod mwyaf ffyrnig y gamlas. Rhowch eich bysedd yn ei geg. Beth sydd ar goll?**

### Gelynyon y gamlas

Dychmygwch mai penbwl bach neu sili-don ydych chi. Dyma'r creaduriaid peryglus i'w hosgoi ar bob cyfrif

### Penhwyad

Blaidd dŵr yw'r enw arall arno. Mae'n cuddio ac yn disgwyl i ddal ei ysglyfaeth â'i ddannedd miniog. Mae'n bwyta pysgod, brogaod a hwyaid bach hyd yn oed. Help!

### Nymff gwas y neidr

Creadur arswydus sy'n defnyddio bachyn miniog ar ei wefus i drywanu ei ysglyfaeth. Ych-a-fi!

### Cwtiar

Mae'r deryn dŵr bach hwn yn mwynhau penbwl bach blasus - neu froga llawn dwf. Brensiach!

### Ydych chi'n gwybod p'un yw p'un?





## Gweithgaredd 9

# Bwli'r gamlas

**Sylwch ar gwtieir ac ieir dŵr yn y warchodfa natur. Adar duon ydynt, ond mae gan y gwtiar streipen wen ar ei phen tra bod gan yr iâr ddŵr streipen goch. Mae ganddyn nhw bersonoliaethau gwahanol hefyd.**

**Ticiwch os ydych chi'n gweld...**

### Iâr ddŵr swil

- Mae ieir dŵr yn swil ac yn cuddio yng nghanol y cyrs.
- IOs ydyn nhw'n cael braw, maen nhw'n 'rhedeg' ar draws y dŵr i chwilio am loches.
- Mae cywion ieir dŵr yn ddel iawn – fel peli pluog parddu!

### Cwtiar ceurus

- Maen nhw'n tasgu dŵr i bobman wrth ymladd ag adar eraill.
- Maen nhw'n bwyta wyau a chywion ieir dŵr – a chwtieir eraill!
- Nid yw cywion cwtieir yn ddel iawn – gyda phennau glas a choch moel.

### Beth yw'r gwahaniaeth?

Edrychwch ar y llun. Ydych chi'n gwybod pa rai yw'r cwtieir a pha rai yw'r ieir dŵr?



## Gweithgaredd 10

# Dim ond dom!

**Yng nghanol y nos, mae dyfrgwn yn nofio ar y rhan hon o'r gamlas er mwyn chwilio am fwyd. Maen nhw'n greaduriaid hynod gyfrinachol – felly sut ydyn ni'n gwybod eu bod nhw wedi bod yma? Mae'r ateb ... yn y dom ...**

**Ticiwch os ydych chi'n gallu gweld unrhyw un o olion y dyfrgi:**

### Tŷ bach preifat – i ddyfrgwn yn unig

Edrychwch o dan y bont. Allwch chi weld rhyw olion bach tywyll a seimllyd? Baw dyfrgwn ydyn nhw. Nid yw'n arogl'i'n rhy ddrwg, mwya'r syndod – fel hen wair wedi llwydo.

### Olion traed mwdlyd

Efallai y gwelwch chi olion traed dyfrgi yn y mwd. Mae ganddo draed gweog, gyda phum bys byr, ac mae ei gynffon yn gadael ôl llusgo.

### Pos pŵ-pŵ

Mae dyfrgi gwrywaidd tua'r un maint â chi Labrador, ac mae'r fenyw tua'r un maint â Sbaengi. Fyddech chi byth yn dweud hynny o edrych ar faw dyfrgi!



### Pa bont?

Ysgrifennwch rif y bont olaf.





# Llwybr Camlas Maldwyn. Bywyd gwylt y dref!

**Llongyfarchiadau, rydych chi wedi cwblhau saffari bywyd gwylt Llwybr Camlas Maldwyn. Wnaethoch chi fwynhau? Croeso i chi ddweud eich dweud:**

## Adroddiad y Llwybr

Enw:

Disgrifiad o'r Llwybr mewn un gair :

Un ffaith anhygoel rydych chi wedi'i dysgu:

Eich hoff weithgaredd:

Llecyn bywyd gwylt gorau:

Peth mwyaf doniol:

Un rheswm dros ddychwelyd yma:

Ydych chi am sôn wrth eich ffrindiau am y llwybr?:

**Defnyddiwch y lle gwag isod i dynnu llun o ddarn mwyaf cofiadwy y llwybr.**



Tell us about your safari at...